

Cyngor Sir Fynwy

Cwestiynau Cyffredin Casgliadau Gwastraff Gardd Tymhorol 2019

Beth sydd wedi newid?

Mae'r gwasanaeth casglu gwastraff gardd yn un dymhorol ac mae'n cynnwys casgliadau o fis Mawrth i fis Tachwedd.

Mae gwasanaethau gwastraff wedi bod trwy adolygiad mawr er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cost-effeithiol sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Un o ganlyniadau'r adolygiad hwn yw gwahanu casgliadau gwastraff bwyd a gwastraff gardd, gyda gwastraff gardd yn cael ei gasglu ar wahân a dim ond o gyfeiriadau sydd â thrwydded.

Pam mae wedi newid?

Yn ystod misoedd y gaeaf mae gostyngiad sylweddol yn y defnydd o wasanaeth, sy'n golygu bod y gwasanaeth wedi'i danddefnyddio ac felly'n aneffeithlon.

Fel ymateb uniongyrchol i'r pwysau cynyddol ar gyllidebau'r Cyngor, roeddem yn wynebu'r penderfyniad anodd i naill ai godi'r taliadau'n sylweddol i gynnwys gwasanaeth blwyddyn lawn, neu ddarparu gwasanaeth tymhorol a chynnal lefelau codi tâl presennol. Cafodd yr opsiynau eu hasesu gan gynghorwyr yn y Cabinet a'r Pwyllgorau Dethol Cymunedol Cryf a'r dewis a ffafir oedd ar gyfer gwasanaeth gwastraff gardd tymhorol.

A fydd fy ngwastraff bwyd yn dal i gael ei gasglu ar yr un diwrnod?

O ganlyniad i newidiadau Adolygiad Ailgyrchu sy'n cael eu gweithredu o Fawrth y 4^{ydd}, efallai ni chaiff eich gwastraff bwyd a gwastraff gardd eu casglu ar yr un diwrnod nawr. Byddwch yn derbyn cyfathrebu uniongyrchol mewn perthynas â'ch newidiadau dydd cyn Mawrth y 4^{ydd}.

A allaf roi gwastraff bwyd yn fy mag gwastraff gardd?

Rhaid i'r holl wastraff bwyd, gan gynnwys crafion, gael ei roi yn eich blwch gwastraff bwyd ac nid yn y bag gwastraff gardd. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan y bydd bwyd yn cael ei gasglu ar wahân i wastraff gardd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd gwastraff bwyd yn mynd i gyfleuster treulio anerobig ar wahân. Bydd gwastraff gardd yn cael ei gompostio'n lleol ac ni all gynnwys gwastraff bwyd o dan reoliadau gwastraff newydd.

Fel arall, gellir compostio gwastraff bwyd yn y cartref.

Beth sy'n digwydd i'r deunydd?

Mae deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni gasglu gwastraff bwyd a gwastraff gardd ar wahân yn hwyrach eleni. Bydd y gwastraff bwyd yn mynd i gyfleuster treulio anerobig ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n creu trydan a gwrtaith pridd. Anfonir gwastraff gardd i gael ei gompostio'n lleol mewn cyfleuster yn y Fenni.

Pam mae'n rhaid i mi dalu am gasgliadau gwastraff gardd?

Nid oes dyletswydd ddeddfwriaethol i gasglu gwastraff gardd ac o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 gall cynghorau godi tâl i adennill costau casglu.

Pam nad yw wedi'i gynnwys yn fy Nhreth Gyngor?

Nid oes angen i bob preswlydd cael gwastraff gardd wedi'i gasglu felly byddai'n annheg codi tâl amdano trwy'r Dreth Gyngor. Mae llawer yn compostio cartref ac yn defnyddio'r gwelliant y pridd hwn yn eu gerddi'u hunain.

Pam mae'r gost yn codi'n uwch na chwyddiant?

Mae'r Cyngor wedi bod yn lleihau'r cymhorthdal y mae'n ei dalu tuag at y casgliad gwastraff gardd bob blwyddyn. Mae hyn oherwydd pwysau cyllidebol ar draws y Cyngor a gostyngiadau mewn cyllid Grant Gwastraff gan Lywodraeth Cymru.

A yw'r Cyngor yn gwneud arian rhag gwerthu compost?

Nac ydyw - mae'r cyngor ond â chaniatâd i adennill y costau o gasglu gwastraff gardd. Rhaid i ni reoli'r costau gwaredu heb drosglwyddo'r taliadau hyn i drigolion. Ar hyn o bryd mae costau gwaredu yn fwy na £210,000 y flwyddyn.

Beth arall y gallaf ei wneud gyda'm gwastraff gardd os nad wyf am gael trwydded, neu yn ystod misoedd y gaeaf?

Y ffordd orau o ddelio â gwastraff gardd yw defnyddio bin compost cartref, gellir prynu'r rhain o ganolfan arddio leol.

Mae Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn agored drwy gydol y flwyddyn i gael gwared â gwastraff gardd yn rhad ac am ddim.

Fel arall, gallech storio'r gwastraff i'w osod allan i'w gasglu ym mis Mawrth (ar ôl prynu trwydded newydd).

Beth ydw i'n gwneud gyda'm gwastraff anifeiliaid compostadwy yn y gaeaf?

Os oes gennych anifail anwes sy'n bwyta ond llysiau, gallwch waredu'r deunydd hwnnw yn yr un modd ag y nodir uchod neu storio'r gwastraff tan gasgliad Mawrth (ar ôl prynu trwydded ar gyfer y flwyddyn nesaf).

Beth sy'n digwydd i wastraff yr ardd ar ôl iddo gael ei gasglu?

Mae'n mynd er defnydd compostio ac mae'r cynnyrch sy'n deillio'n cael ei ddefnyddio ar dir amaethyddol i wella'r pridd. Mae peth o'r gwastraff gardd a gynhyrchir yn Sir Fynwy yn cael ei drin ar fferm yn y Fenni a'i aildefnyddio'n lleol.

Beth am gyfnodau tocio'r gaeaf a chwyp dail?

Rydym wedi ceisio cynnwys y prif dymor garddio gan gynnwys cyfnod cwyp dail a thocio'r gaeaf. Gallwch gymryd deunydd ychwanegol i'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref neu ei storio ar gyfer casgliadau ym mis Mawrth (ar ôl prynu trwydded ar gyfer y flwyddyn nesaf).

A fydd fy nghoeden Nadolig yn cael ei gasglu?

Gan fod y gwasanaeth yn awr yn un dymhorol ac ni fydd yn gweithredu yn ystod misoedd y gaeaf, ni chaiff coed Nadolig eu casglu. Bydd Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn derbyn coed fel y bydd rhai canolfannau garddio.

A fydd casgliadau tymhorol yn arwain at fwy o dipio anghyfreithlon?

Rydym wedi monitro'n agos y tipio anghyfreithlon ac nid ydym wedi gweld cynnydd sylweddol a hoffem ddiolch i'n trigolion am waredu eu gwastraff yn gyfrifol.

Pam na wnaethoch ymgynghori â mi?

Nid ar chwarae bach y cymerwyd y penderfyniad hwn ond roedd o ganlyniad i bwysau sylweddol ar gyllidebau yn 2018. Cytunwyd ar y penderfyniad drwy'r Cyngor ac roedd yr holl adroddiadau a thrafodion ar agor i'r cyhoedd ac ar gael i'r cyhoedd.